**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Rhaid cefnogi busnesau bach a chanolig yn y diwydiant gwallt a harddwch yn ystod cyfnodau clo lleol

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Tachwedd 2020
Petitions Committee | 17 November 2020

Cyfeirnod: RS20/14409-3

**Rhif y ddeiseb**: P-05-1042

**Teitl y ddeiseb**: Rhaid cefnogi busnesau bach a chanolig yn y diwydiant gwallt a harddwch yn ystod cyfnodau clo lleol

**Geiriad y ddeiseb:** Mae cyfnodau clo lleol yn cael effaith sylweddol ar fusnesau bach a chanolig.

Drwy atal cwsmeriaid rhag cael mynediad at fannau glan a chyfyngedig (sy'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r coronafeirws), rydych yn rhwystro ein cwsmeriaid rhag ymweld â ni.

Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar ein busnesau–effeithiau a fydd yn drychinebus os ydynt yn parhau.

Rydym ni yn y diwydiant gwallt a harddwch yn ddiogel.

Rydym yn gwirio tymheredd cwsmeriaid.

Rydym yn glynu wrth y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE) llawn.

Rydym yn defnyddio system apwyntiadau "un i mewn, un allan".

Er gwaethaf hyn, mae cyfnodau clo lleol yn lleihau ein sylfaen cwsmeriaid hyd at 80 y cant.

Mae gennym filiau cyfleustodau, cyflogau a rhenti llawn i'w talu o hyd.

Caniateir i ni fynd i mewn i gartref cwsmer mewn man sy'n destun cyfnod clo lleol–man nad yw'n ddiogel, felly, yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, ni chaniateir i'r un cwsmer ddod i mewn i'n salonau ni.

Mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod ein diwydiant ni fel diwydiant diogel sydd wedi'i reoleiddio.

Fel diwydiant, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein salonau yn ddiogel, yn cydymffurfio â'r rheolau, yn lan ac yn ddiogel i'r cyhoedd fynd i mewn iddynt.

# 1. Cefndir

Yn ystod y cyfyngiadau lleol, **caniataodd Llywodraeth Cymru i salonau gwallt a harddwch aros ar agor, er y cynghorwyd cwsmeriaid y dylid ond mynd i rai yn ardal eu hawdurdod lleol yn unig**. Fel enghraifft o hyn, roedd dogfen Cwestiynau Cyffredin ar gyfer awdurdod lleol Caerffili yn nodi:

> **A yw siopau trin gwallt, salonau harddwch a gwasanaethau cyswllt agos eraill yn cael bod ar agor o hyd?**
>
> Ydynt, ond dim ond i'r rhai sydd yn yr ardal y dylech fynd. Bydd angen ichi wisgo gorchudd wyneb.

Yn dilyn hynny, **roedd busnesau trin gwallt a harddwch ymhlith y rhai yr oedd rhaid iddynt gau yn ystod y cyfnod atal byr (firebreak)** o dan *Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020*.

**O 9 Tachwedd** byddant yn gallu ailagor**, ac mae hyn yn wir am salonau a phobl sy'n cynnig gwasanaeth trin gwallt a harddwch symudol**. Yn yr un modd â phan ailagorwyd busnesau yn flaenorol, bydd hyn yn amodol ar fusnesau yn cymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Hefyd fel o'r blaen, mae cyngor iechyd y cyhoedd cryf yn erbyn gwneud rhai mathau o driniaethau oherwydd cyswllt wyneb agos, ac mae Llywodraeth Cymru yn cynghori na ddylent ddigwydd oni bai y dilynwyd hyfforddiant priodol a bod modd gwisgo offer amddiffynnol addas.

Ysgrifennodd y Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol (NHBF), sef y corff masnach ar gyfer y sector gwallt a harddwch, at Weinidog yr Economi,

Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar 30 Medi. Yn y llythyr nododd yr NHBF y materion sy'n wynebu'r sector yng Nghymru o ganlyniad i'r pandemig:

- Mae bron i dri o bob pedwar salon a siop barbwr yn nodi bod busnes wedi lleihau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd (73%).
- Mae dwy ran o dair yn disgwyl i fusnes aros yn araf yn seiliedig ar y rhai sydd wedi gwneud apwyntiadau am y tri mis nesaf gyda 29% yn poeni'n wirioneddol am gyn lleied o fusnes sydd ganddynt yn y dyfodol.
- Nid yw dros draean yn gwybod a fydd eu busnes yn goroesi tan y Nadolig (36%).
- Er nad oes llawer wedi dileu swyddi eto, mae bron i un o bob pedwar yn disgwyl lleihau nifer eu staff yn y tri mis nesaf gyda 43% yn methu â gwarantu sicrwydd swyddi.
- Mae oriau staff wedi lleihau i liniaru'r lefelau busnes presennol (39% ar draws fusnesau gwallt a harddwch gan godi i bron i hanner (46%) ar draws y busnesau harddwch).

# 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ysgrifennodd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru at y Pwyllgor ar 26 Hydref ynghylch y ddeiseb. Yn ei lythyr mae'n tynnu sylw at y cyllid o £300 miliwn a sicrhawyd ei fod ar gael gan Lywodraeth Cymru, yr oedd £200 miliwn ohono yn cefnogi busnesau yr effeithiwyd arnynt gan y cyfnod atal byr a'r mesurau cyfyngiadau lleol blaenorol, a £100 miliwn ar gyfer grantiau datblygu busnes.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud ar gyfer busnesau yr effeithir arnynt gan gyfyngiadau lleol a'r cyfnod atal byr. Mae hyn yn cynnig cymorth i ystod o fusnesau, gan gynnwys rhai o'r sector gwallt a harddwch.

Mae'r **Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud** yn cynnwys dau grant sy'n daladwy i fusnesau sydd ag eiddo y maent yn gorfod talu ardrethi busnes yn ei gylch.

- Mae **busnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden sydd â gwerth ardrethol o £12,001 i £51,000** a oedd rhaid iddynt yn gyfreithiol gau ar gyfer y cyfnod atal byr yn gymwys i gael grant o £5,000.

- **Mae busnesau sy'n gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnesau bach, rhyddhad elusennol neu ryddhad ardrethi clwb chwaraeon amatur cymunedol, ac sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000,** yn gymwys i gael grant o £1,000. Byddant yn gymwys hefyd i hawlio grant pellach o £1,000 pe byddent yn destun cyfyngiadau lleol am dair wythnos neu fwy hyd at 23 Hydref, ac os ydynt wedi dioddef gostyngiad o 50 y cant o leiaf mewn trosiant yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal, bydd y busnesau hyn yn gymwys i hawlio grant o £2,000 os oedd gofyn cyfreithiol iddynt gau ar gyfer y cyfnod atal byr o dan reoliadau'r coronafeirws.

Mae dwy elfen ar wahân i'r **Grant Dewisol Cyfyngiadau Symud**. Mae'r grant hwn ar gyfer busnesau sydd â llai na 50 o weithwyr ac nad ydynt yn gymwys i gael y grantiau a ddarperir i fusnesau sy'n gorfod talu ardrethi busnes. Ni all y sawl sy'n hawlio'r grant hwn hawlio'r grant ar gyfer busnesau sy'n gorfod talu ardrethi busnes, ac i'r gwrthwyneb.

- Mae busnesau sydd wedi cael eu **gorfodi yn gyfreithiol i gau o ganlyniad i'r cyfnod atal byr cenedlaethol o dan reoliadau'r coronafeirws, neu sy'n gallu dangos y bydd y cyfnod atal byr yn arwain at ostyngiad o 80 y cant o leiaf yn eu trosiant am y cyfnod hwn,** yn gallu gwneud cais am grant o £1,500.
- **Mae busnesau sy'n bodloni'r meini prawf uchod, ac sydd wedi bod yn destun cyfyngiadau lleol am dair wythnos neu fwy hyd at 23 Hydref, ac sydd hefyd wedi gweld gostyngiad o 50 y cant o leiaf yn eu trosiant dros y cyfnod hwn,** yn gallu gwneud cais am grant o £2,000.

Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru £100 miliwn ar gyfer **grantiau datblygu busnesau i gynorthwyo cwmnïau i drosglwyddo i economi'r dyfodol**, er bod mynediad at y grantiau hyn wedi'i atal dros dro ar hyn o bryd tra bod Llywodraeth Cymru yn prosesu ceisiadau sydd wedi dod i law.

- **Roedd microfusnesau (sy'n cyflogi rhwng 1 a 9 o bobl) yn gallu gwneud cais am hyd at £10,000. Roedd busnesau twristiaeth a lletygarwch, a'r rheini mewn sectorau yr oedd rhaid iddynt yn gyfreithiol gau yn ystod y cyfnod atal byr (fel gwallt a harddwch) yn gallu derbyn cyllid grant o 100 y cant**. Mae angen i fusnesau mewn sectorau eraill fuddsoddi o leiaf 10 y cant o'u cyllid eu hunain i gyfateb i'r cyllid grant y maent yn ei hawlio.
- **Roedd busnesau bach a chanolig (sy'n cyflogi rhwng 10 a 249 o bobl) yn gallu gwneud cais am hyd at £150,000. Roedd busnesau twristiaeth a lletygarwch, a'r rheini mewn sectorau yr oedd rhaid iddynt yn gyfreithiol gau yn ystod y cyfnod atal byr (fel gwallt a harddwch) yn gallu derbyn cyllid grant o 100 y cant**. Mae angen i fusnesau mewn sectorau eraill fuddsoddi eu cyllid eu hunain i gyfateb i'r cyllid grant sy'n cael ei hawlio. Mae hyn yn golygu buddsoddiad cyfatebol o 10 y cant o leiaf ar gyfer busnesau bach (sy'n cyflogi rhwng 1 a 49 aelod o staff), a buddsoddiad

cyfatebol o 20 y cant ar gyfer busnesau canolig (sy'n cyflogi rhwng 50 a 249 aelod o staff).

- **Roedd busnesau mawr (sy'n cyflogi 250+ o bobl) yn gallu gwneud cais am hyd at £200,000** ar yr amod eu bod yn darparu buddsoddiad cyfatebol eu hunain o 50 y cant o leiaf.

Mae llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor hefyd yn cyfeirio at fesurau cymorth Llywodraeth y DU.  Ers hynny, mae'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (ffyrlo) wedi'i ymestyn tan 31 Mawrth 2021, ac mae swm y cymorth sydd ar gael trwy'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth wedi cynyddu.

# 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Clywodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Senedd dystiolaeth lafar gan yr NHBF ar 7 Hydref, fel rhan o'i ymchwiliad i adferiad economaidd ar ôl pandemig y coronafeirws.  Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar galwodd yr NHBF ar i Lywodraeth Cymru gyflwyno nifer o fesurau ychwanegol i gefnogi'r sector gwallt a harddwch, gan gynnwys:

- Ymestyn y 100 y cant o **ryddhad ardrethi busnes** sydd ar gael i lawer o fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch;
- Darparu **grantiau caledi** unigol i sectorau sydd wedi cael eu heffeithio'n fawr gan y pandemig;
- Creu **cronfa ailsgilio ac ailhyfforddi** pwrpasol ar gyfer y sector gwallt a harddwch, a mwy o arian ar gyfer **prentisiaethau**;
- Mwy o **gymorth i fusnesau sydd wedi colli allan ar gynlluniau presennol**; a
- **Chynllun talebau** i gefnogi busnesau mewn sectorau sydd wedi'u lleoli ar y stryd fawr.

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 22 Hydref, **holwyd y Prif Weinidog ynghylch yr angen am gymorth ariannol ychwanegol ar gyfer sectorau economaidd sylfaenol fel gwallt a harddwch**, twristiaeth a lletygarwch.  Atebodd y Prif Weinidog:

> We've invested over £90 million already in the foundational aspects of our economy, whether that is in tourism, hospitality or sectors like beauty and hairdressing and so on. Those firms and companies will be, in many, many cases directly eligible for the non-discretionary part, the automatic grants that will come as part of our plan. But the discretionary part—the discretionary £2,000 top-up grants, for example—

will be able to be calibrated to respond to any gaps in funding that emerge over not just the firebreak period, but as we go further into the winter as well.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.